# Gweithdrefnau Gêm £150,000 A Month For A Year




## Cyflwyniad

Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer £150,000 A MONTH FOR A YEAR (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau"), y Rheolau Gêm Benodol a'r Gweithdrefnau hyn yn gymwys. Gellir gweld y Rheolau a'r Rheolau Gêm Benodol mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

## Manylion y Gêm

Enw'r Gêm: **"£150,000 A MONTH FOR A YEAR"**
Rhif y Gêm: **"1287"**
Pris Manwerthu: **£5 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 3.28 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 15,829,200 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.

## Sut i chwarae ac ennill

Mae pedair Ardal Chwarae ar Gerdyn Crafu wedi'u nodi fel GAME 1, GAME 2, GAME 3 a GAME 4.

Gall Chwaraewr ennill hyd at 15 gwaith ar Gerdyn Crafu.

## GAME 1

Mae Ardal Chwarae GAME 1 yn cynnwys pedair rhes lorweddol wedi'u labelu fel 'ROW 1', 'ROW 2', 'ROW 3' a 'ROW 4' ("Rhes" yn unigol, "Rhesi" gyda'i gilydd). Mae pob Rhes yn cynnwys rhif y Rhes, dau fotiff '' a'r gair 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr"). Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu dau Symbol Chwarae unfath gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol o dan yr haen mewn Rhes. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr ar gyfer y Rhes honno.

### Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae ar gyfer GAME 1

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae | PURSE | AMYTST | MNYBAG | CROWN | -GOLD |
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae | WALLET | VAULT | GLDKEY | POTGLD | MYTREE |
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae | CHEQUE | -ATM- | CHEST | -CASH- | -BANK |
| Symbolau Chwarae |  |  | | | |
| Penawdau Chwarae | NUGGET | RINGS | | | |

Bydd dau Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan haen pob Rhes yn GAME 1. Dim ond Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae GAME 1 y gellir eu defnyddio i chwarae GAME 1. Ni ellir cyfuno Symbolau Chwarae mewn un Rhes â Symbolau Chwarae mewn unrhyw Res arall i ennill.

18+

**GP GM1287**
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY
YOUR NUMBERS MAKE AMAZING HAPPEN

Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr ar gyfer GAME 1

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Gwobr | £5.00 | £10.00 | £20.00 | £25.00 | £50.00 | £100 |
| Penawdau Gwobr | -FIVE | -TEN- | TWNTY | TWFIV | FIFTY | -HUND |
| Symbolau Gwobr | £200 | £1,000 | £5,000 | £10,000 | YEAR | |
| Penawdau Gwobr | TWHUN | -THOU | FIVTH | TNTHO | -YEAR | |

Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos o dan haen pob Blwch Gwobr yn GAME 1. Dim ond un Pennawd Gwobr sy'n ymddangos o dan bob Symbol Gwobr. Dim ond Symbol Gwobr GAME 1 a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen Blwch Gwobr mewn Rhes y gellir eu defnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â Rhes yn GAME 1.

GAME 2

Mae Ardal Chwarae GAME 2 yn cynnwys pedair rhes lorweddol wedi'u labelu fel 'ROW 1', 'ROW 2', 'ROW 3' a 'ROW 4' ("Rhes" yn unigol, "Rhesi" gyda'i gilydd). Mae pob Rhes yn cynnwys rhif y Rhes, un motiff '' o dan y golofn sy'n dwyn y pennawd 'YOURS', un motiff '' o dan y golofn sy'n dwyn y pennawd 'THEIRS' a'r gair 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr"). Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol mewn Rhes o dan haen y pennawd 'YOURS' sydd â phwysau mwy na'r Symbol Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen y pennawd 'THEIRS'. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr ar gyfer y Rhes honno.

Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae ar gyfer GAME 2

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae | 10g | 11g | 12g | 13g | 14g | 15g |
| Penawdau Chwarae | -TEN- | ELEVN | TWELV | THRTN | FORTN | FIFTN |
| Symbolau Chwarae | 16g | 17g | 18g | 19g | 20g | 21g |
| Penawdau Chwarae | SIXTN | SEVTN | EIGTN | NINTN | TWNTY | TWONE |
| Symbolau Chwarae | 22g | 23g | 24g | 25g | 26g | 27g |
| Penawdau Chwarae | TWTWO | TWTHR | TWFOR | TWFIV | TWSIX | TWSVN |
| Symbolau Chwarae | 28g | 29g | 30g | | | |
| Penawdau Chwarae | TWEGT | TWNIN | THRTY | | | |

Bydd dau Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan haen pob Rhes yn GAME 2. Dim ond Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae GAME 2 y gellir eu defnyddio i chwarae GAME 2. Ni ellir cyfuno Symbolau Chwarae mewn un Rhes â Symbolau Chwarae mewn unrhyw Res arall i ennill.

18+

**GP GM1287**
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY

YOUR NUMBERS MAKE AMAZING HAPPEN

Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr ar gyfer GAME 2

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Gwobr | £5.00 | £10.00 | £20.00 | £25.00 | £50.00 | £100 |
| Penawdau Gwobr | -FIVE | -TEN- | TWNTY | TWFIV | FIFTY | -HUND |
| Symbolau Gwobr | £200 | £1,000 | £5,000 | £10,000 | YEAR | |
| Penawdau Gwobr | TWHUN | -THOU | FIVTH | TNTHO | -YEAR | |

Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos o dan haen pob Blwch Gwobr yn GAME 2. Dim ond un Pennawd Gwobr sy'n ymddangos o dan bob Symbol Gwobr. Dim ond Symbol Gwobr GAME 2 a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen Blwch Gwobr yn GAME 2 y gellir eu defnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â GAME 2.

GAME 3

Mae Ardal Chwarae GAME 3 yn cynnwys pedwar motiff ' ' a'r gair 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr") yn union o dan bob motiff. Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae ' ' gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen motiff ' '. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Symbol Gwobr a ddangosir gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr sydd yn union o dan y Symbol Chwarae ' ' hwnnw.

Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae ar gyfer GAME 3

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae | | SILVER | | | |
| Penawdau Chwarae | DIAMND | SILVER | HOUSE | -CASE | PLANE |
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | -CAR- | CAMER | PALM- | YACHT | -ROLL |
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | NCKLCE | WATCH | TIARA | -SUN- | -WIN- |

Bydd pedwar Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan yr haen yn Ardal Chwarae GAME 3. Dim ond Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae GAME 3 y gellir eu defnyddio i chwarae GAME 3.

Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr ar gyfer GAME 3

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Gwobr | £5.00 | £10.00 | £20.00 | £25.00 | £50.00 | £100 |
| Penawdau Gwobr | -FIVE | -TEN- | TWNTY | TWFIV | FIFTY | -HUND |
| Symbolau Gwobr | £200 | £1,000 | £5,000 | £10,000 | YEAR | |
| Penawdau Gwobr | TWHUN | -THOU | FIVTH | TNTHO | -YEAR | |

Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos yn union o dan y Symbol Chwarae a'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen pob Blwch Gwobr yn GAME 3. Dim ond un Pennawd Gwobr sy'n ymddangos o dan bob Symbol Gwobr. Dim ond y Symbol Gwobr a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen Blwch Gwobr yn GAME 3 y gellir eu defnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â GAME 3.

18+

GP GM1287
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY

YOUR NUMBERS MAKE AMAZING HAPPEN

GAME 4

Mae Ardal Chwarae GAME 4 yn cynnwys tri motiff '' a'r gair 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr") yn union o dan bob motiff '' yn yr adran o dan y pennawd 'YOUR SYMBOLS' ("Adran Eich Symbolau") ac un motiff '' yn yr adran o dan y pennawd 'WINNING SYMBOL' (yr "Adran Symbol Buddugol").

Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan yr haen yn yr Adran Symbol Buddugol sy'n cyfateb i Symbol Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan yr haen yn Adran Eich Symbolau. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Symbol Gwobr a ddangosir gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr sydd yn union o dan y Symbol Chwarae cyfatebol yn Adran Eich Symbolau.

Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae ar gyfer GAME 4

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae | TRESRE | BRDPAS | SUITCS | PINPAD | -HELI |
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae | -RING | -GEM- | MNSION | PEARLS | -BIKE |
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae | BUNDLE | -LIMO | -BAG- | PHONE | -SHIP |

Bydd un Symbol Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan yr haen yn yr Adran Symbol Buddugol. Bydd tri Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan yr haen yn Adran Eich Symbolau. Dim ond Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae GAME 4 y gellir eu defnyddio i chwarae GAME 4.

Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr ar gyfer GAME 4

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Gwobr | £5.00 | £10.00 | £20.00 | £25.00 | £50.00 | £100 |
| Penawdau Gwobr | -FIVE | -TEN- | TWNTY | TWFIV | FIFTY | -HUND |
| Symbolau Gwobr | £200 | £1,000 | £5,000 | £10,000 | YEAR | |
| Penawdau Gwobr | TWHUN | -THOU | FIVTH | TNTHO | -YEAR | |

Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos yn union o dan y Symbol Chwarae a'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen pob Blwch Gwobr yn Adran Eich Symbolau. Dim ond un Pennawd Gwobr sy'n ymddangos o dan bob Symbol Gwobr. Dim ond y Symbol Gwobr a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen Blwch Gwobr yn Adran Eich Symbolau y gellir eu defnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â GAME 4.

POB GÊM

Os byddwch yn ennill mewn Gêm ac mai 'YEAR' yw'r Wobr, byddwch yn ennill Gwobr os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm o £150,000 bob mis am 12 mis. Mae Rheolau Gêm Benodol yn berthnasol i'r Wobr hon, a gellir dod o hyd iddynt isod.

Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm |
|---|---|---|---|
| £5 | | 2,057,839 | 8 |
| £10 | | 897,007 | 18 |
| £10 | £5 x 2 | 1,055,206 | 15 |
| £20 | | 158,294 | 100 |
| £20 | £10 x 2 | 211,060 | 75 |
| £20 | £5 x 4 | 263,820 | 60 |
| £25 | | 20,103 | 788 |
| £25 | £5 x 5 | 31,422 | 504 |
| £25 | £5 + (£10 x 2) | 30,162 | 525 |
| £25 | £5 + £20 | 28,884 | 549 |
| £25 | (£5 x 3) + £10 | 36,422 | 435 |
| £50 | | 2,253 | 7,026 |
| £50 | £25 x 2 | 2,283 | 6,934 |
| £50 | £10 x 5 | 2,523 | 6,274 |
| £50 | £5 x 10 | 3,021 | 5,240 |
| £50 | (£5 x 2) + (£20 x 2) | 2,391 | 6,621 |
| £50 | (£5 x 4) + (£10 x 3) | 2,915 | 5,431 |
| £50 | (£5 x 6) + (£10 x 2) | 2,887 | 5,483 |
| £50 | (£5 x 3) + £10 + £25 | 2,505 | 6,320 |
| £100 | | 1,003 | 15,782 |
| £100 | £50 x 2 | 1,012 | 15,642 |
| £100 | £20 x 5 | 1,258 | 12,583 |
| £100 | £10 x 10 | 1,369 | 11,563 |
| £100 | (£10 x 3) + £20 + (£25 x 2) | 1,260 | 12,563 |
| £100 | (£5 x 12) + (£10 x 2) + £20 | 1,508 | 10,497 |
| £100 | (£5 x 13) + £10 + £25 | 1,509 | 10,490 |
| £200 | | 256 | 61,833 |
| £200 | £100 x 2 | 253 | 62,567 |
| £200 | £25 x 8 | 255 | 62,076 |
| £200 | £20 x 10 | 255 | 62,076 |
| £200 | (£10 x 10) + (£20 x 5) | 388 | 40,797 |
| £200 | (£5 x 8) + (£10 x 2) + (£20 x 2) + (£25 x 2) + £50 | 373 | 42,438 |
| £1,000 | | 26 | 608,816 |
| £1,000 | £200 x 5 | 27 | 586,267 |
| £1,000 | (£25 x 2) + (£50 x 11) + (£200 x 2) | 34 | 465,565 |
| £1,000 | (£5 x 2) + (£10 x 2) + £20 + (£25 x 2) + (£50 x 2) + (£100 x 4) + (£200 x 2) | 34 | 465,565 |
| £5,000 | | 1 | 15,829,200 |
| £5,000 | (£25 x 2) + (£50 x 3) + (£100 x 4) + (£200 x 2) + (£1,000 x 4) | 1 | 15,829,200 |
| £5,000 | (£25 x 4) + (£50 x 2) + (£100 x 2) + (£200 x 3) + (£1,000 x 4) | 2 | 7,914,600 |
| £10,000 | | 1 | 15,829,200 |
| £10,000 | £1,000 x 10 | 1 | 15,829,200 |
| £10,000 | (£25 x 2) + (£50 x 3) + (£100 x 2) + (£200 x 3) + (£1,000 x 4) + £5,000 | 2 | 7,914,600 |
| £1,800,000 | YEAR | 4 | 3,957,300 |

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei dilysu, caniateir i Fanwerthwyr barhau i werthu'r Cardiau Crafu hynny sydd eisoes wedi'u hactifadu i'w gwerthu a chaiff unrhyw Gardiau Crafu nad ydynt wedi'u hactifadu eu tynnu'n ôl. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

Gwerth Gwobrau yn Y Gêm
Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm yn cynrychioli 70.52% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £55,817,430.00 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Camelot ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae amdanynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, na Chardiau Crafu a gaiff eu tynnu'n ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu'n ôl gan Camelot heb yn wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau).

Cyffredinol
Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Gweithdrefnau hyn ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Camelot o ran y Gêm hon, y Gweithdrefnau hyn fydd drechaf (ac eithrio os bydd unrhyw Reolau Gêm Benodol yn gymwys i'r Gêm hon. Yn yr achos hwnnw, y Rheolau fydd drechaf).

**RHEOLAU GÊM BENODOL SY'N YMWNEUD Â GWOBRAU 1287 £150,000 A MONTH FOR A YEAR**
Pan fyddwch yn chwarae Gêm Cardiau Crafu y Loteri Genedlaethol "£150,000 A Month For a Year" (Gêm Rhif 1287) (y "Gêm"), mae'r Rheolau Gêm Benodol hyn (y "Rheolau"), y Gweithdrefnau Gêm (y "Gweithdrefnau") a Rheolau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau Cardiau Crafu") yn berthnasol. Mae'r Rheolau hyn yn delio â thalu a dyfarnu'r Gwobrau a ddiffinnir yn y Rheolau hyn. I gael gwybodaeth am y Gêm (gan gynnwys sut i chwarae ac ennill), gweler y Gweithdrefnau.

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y dogfennau a nodir uchod, y Rheolau hyn a'r Gweithdrefnau fydd drechaf, ac yna'r Rheolau Cardiau Crafu (oni nodir yn wahanol yn y Rheolau Cardiau Crafu).

Gallwch ddarllen y Rheolau Cardiau Crafu a'r Gweithdrefnau, ynghyd ag unrhyw Reolau Gêm Benodol, ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk/scratchcards**. Mae'r Rheolau Cardiau Crafu hefyd ar gael gan Fanwerthwyr. Gallwch hefyd gael copïau o bob un o'r dogfennau hyn drwy ffonio Llinell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 50 50** (mae'r taliadau a godir am alwadau i'w gweld yn yr adran Ymholiadau Dros y Ffôn) neu drwy ysgrifennu i The National Lottery, PO Box 251, Watford WD18 9BR.

Caiff pob gair ac ymadrodd yn y Rheolau hyn sy'n dechrau gyda phriflythyren ac y mae ystyr penodol iddo ei egluro yn Rheol 5 neu yn y Rheolau Cardiau Crafu (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

1. Hawlio Gwobrau
   1.1 Rhaid hawlio gwobrau yn bersonol cyn diwedd y Cyfnod Hawlio (fel y nodir yn y Rheolau Cardiau Crafu). Rhaid i Chi ffonio Llinell y Loteri Genedlaethol yn ystod ei oriau agor arferol* ac yn ystod y Cyfnod Hawlio er mwyn trefnu apwyntiad gyda chynrychiolydd/cynrychiolwyr Camelot. Caiff Eich hawl i Wobr ei cholli (ac ni thelir y Wobr) os na chaiff Gwobr ei hawlio o fewn y Cyfnod Hawlio. Caiff Gwobrau eu talu yn Eich cartref neu mewn unrhyw leoliad arall y cytunir arno, neu mewn Canolfan Ranbarthol.

   *Ar adeg llunio'r Rheolau hyn, oriau agor y Ganolfan Gyswllt yw 8.00am i 8.00pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a 9am i 5pm ar ddydd Sul. Mae'n bosibl y bydd oriau agor cyfyngedig yn gymwys dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Gellir gweld yr oriau agor presennol ar wefan y Loteri Genedlaethol.

   1.2 Yn ystod Eich galwad ffôn â Llinell y Loteri Genedlaethol, gofynnir i Chi am wybodaeth benodol, gan gynnwys Eich enw, Eich cyfeiriad, Eich rhif(au) ffôn a'ch dyddiad geni ("Gwybodaeth Bersonol").

   1.3 Yn ystod yr apwyntiad gyda chynrychiolydd/cynrychiolwyr Camelot, gofynnir i Chi gwblhau Ffurflen Hawlio Gwobr (a ddarperir gan Camelot), neu unrhyw ffurflen arall y bydd yn ofynnol gan Camelot i Chi ei llenwi, a'i chyflwyno ynghyd â'r Cerdyn Crafu buddugol, tystiolaeth o hawl i wobr a chadarnhad o'r Wybodaeth Bersonol a ddarperir o dan Reol 1.2.

2. Talu Gwobrau
   2.1 Unwaith y bydd Eich hawliad wedi'i ddilysu'n llwyddiannus yn unol â gofynion y Rheolau Cardiau Crafu, y Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn, caiff Taliad Cyntaf y Wobr ei dalu i Chi, oni fydd Rheol 2.5 neu Reol 3 isod yn berthnasol. Bydd Camelot yn penderfynu sut y bydd yn gwneud Taliad Cyntaf y Wobr, a all fod ar ffurf siec neu drosglwyddiad banc. Bydd penderfyniad Camelot ynghylch a yw'r hawliad yn ddilys yn derfynol ac yn gyfrwymol.

   2.2 Bydd yr hyn sy'n weddill o'r Wobr (un ar ddeg (11) o Daliadau Gwobr) yn cael ei dalu drwy archeb sefydlog fisol i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y DU neu Ynys Manaw. Rhaid i Chi roi manylion Eich cyfrif perthnasol i Camelot a rhoi gwybod i Camelot ar unwaith yn ysgrifenedig os bydd unrhyw newidiadau i fanylion Eich cyfrif.

2.3 Os bydd Eich enw, Eich cyfeiriad neu'ch manylion banc yn newid, bydd angen i Chi roi tystiolaeth o'r newidiadau hyn i Camelot.

2.4 Ni fydd Camelot yn atebol os byddwch ar Eich colled mewn unrhyw ffordd o ganlyniad i fethu â rhoi gwybod, neu oedi wrth roi gwybod, i Camelot am unrhyw newid a nodir uchod. Hefyd, ni fydd Camelot yn atebol am unrhyw Daliadau Gwobr a gaiff eu colli neu eu hoedi yn y post neu'r system fancio. Eich cyfrifoldeb Chi yw dweud wrth Camelot ar unwaith yn ysgrifenedig os na fyddwch yn cael Taliad Gwobr.

2.5 Mae'n bosibl y bydd trydydd parti yn cysylltu â Camelot yn ystod y cyfnod hawlio Gwobr neu'r Cyfnod Talu Gwobr, yn honni ei fod yn gynrychiolydd cyfreithiol i Chwaraewr a fu farw ac felly bod ganddo hawl i gael y Taliad Gwobr yn lle, neu ar ran, y Chwaraewr hwnnw a fu farw (er enghraifft fel ysgutor ystad Chwaraewr a fu farw). Mewn achosion o'r fath, bydd Camelot yn atal Taliadau Gwobr pellach hyd nes y gall gadarnhau pwy sydd â'r hawl briodol i gael y Taliadau Gwobr. Yna caiff y Taliadau Gwobr ar gyfer y Cyfnod Talu Gwobr sy'n weddill eu talu i'r unigolyn perthnasol.

2.6 Ni fydd Camelot yn atebol i dalu llog i Chi, nac i unrhyw drydydd parti a nodir yn Rheol 2.5 uchod, os caiff unrhyw Daliadau Gwobr eu hatal.

## 3. Pobl nad ydynt yn byw yn y Deyrnas Unedig nac Ynys Manaw

Os nad ydych yn byw yn y Deyrnas Unedig nac Ynys Manaw pan fyddwch yn hawlio'r Wobr, bydd Camelot yn gwneud cyfandaliad untro o £1,800,000 i Chi, llai Taliad Cyntaf y Wobr a delir o dan Reol 2.1 uchod os yw hwn eisoes wedi'i dalu gan Camelot. Mae penderfyniad Camelot yn derfynol ac yn gyfrwymol mewn unrhyw anghydfod sy'n ymwneud â ph'un a ydych yn byw yn y Deyrnas Unedig neu ar Ynys Manaw ai peidio.

## 4. Y Gyfraith

Y gyfraith berthnasol ar gyfer y Rheolau hyn yw Cyfraith Lloegr, a chaiff unrhyw achosion cyfreithiol eu cyflwyno gerbron Llysoedd Lloegr.

## 5. Ystyr Geiriau

Bydd gan y geiriau a'r termau canlynol yr ystyron isod (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

**Camelot:** Camelot UK Lotteries Limited, cwmni a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr.

**Cyfnod Talu Gwobr:** y cyfnod sy'n dechrau ar Ddyddiad Taliad Cyntaf y Wobr ac yn dod i ben pan fydd Gwobr wedi'i thalu'n llawn i Chi, yn amodol ar Reol 2.5 uchod.

**Dyddiad Taliad Cyntaf y Wobr:** y dyddiad y telir Taliad Cyntaf y Wobr i Chi.

**Gwobr:** gwobr sy'n rhoi hawl i Chi gael £1,800,000 naill ai (a) ar ffurf deuddeg (12) o Daliadau Gwobr misol yn ystod y Cyfnod Talu Gwobr neu (b) ar ffurf cyfandaliad, os yw Rheol 3 uchod yn berthnasol, yn amodol ar y Rheolau Cardiau Crafu a'r Rheolau hyn.

**Taliad Cyntaf y Wobr:** Taliad Cyntaf y Wobr o £150,000 a delir i chi yn unol â Rheol 2.1.

**Taliad Gwobr:** swm o £150,000.

### Rhifau a Chyfeiriadau Cyswllt

YMHOLIADAU DROS Y FFÔN Llinell y Loteri Genedlaethol: **0333 234 50 50** (**0370 737 3983** ar gyfer cwynion) I'r rhai sy'n drwm eu clyw ac yn defnyddio cyfarpar minicom, ffoniwch **0370 737 8249**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 ac 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

YMHOLIADAU DRWY'R POST The National Lottery, PO Box 251, Watford WD18 9BR

E-BOST **help@national-lottery.co.uk**

GWEFAN **www.national-lottery.co.uk**

HAWLIADAU DRWY'R POST The National Lottery, PO Box 287, Watford WD18 9TT

### CYFEIRIAD CANOLFAN RANBARTHOL Y LOTERI GENEDLAETHOL

WATFORD (swyddfa gofrestredig Camelot) The National Lottery, Tolpits Lane, Watford WD18 9RN Ffôn: 01923 425000

18+

**GP GM1287**
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY

**YOUR NUMBERS MAKE AMAZING HAPPEN**